6 Cymryd gorfodi o ddifrif

64. Mae gan waith gorfodi cynnal plant hanes gwael. Er gwaethaf y ffaith bod gan yr Asiantaeth Cynnal Plant amrywiaeth eang o bwerau, gan gynnwys y gallu i ddefnyddio'r llysoedd i garcharu rhieni dibreswyl sy'n methu â thalu'n gyson, ni chaiff cosbau eu defnyddio'n rheolaidd, ac mae diwylliant o ddiffyg cydymffurfio wedi datblygu. Nid yw'r Asiantaeth Cynnal Plant wedi rhoi blaenoriaeth i waith gorfodi ac nid oes digon o adnoddau wedi'u rhoi i'r maes. Mae hyn wedi niweidio hygrededd yr Asiantaeth ac wedi arwain at sefyllfa annerbyniol lle y mae rhieni dibreswyl yn credu y gallant anwybyddu'r Asiantaeth a pheidio â chael eu cosbi am wneud hynny.[54] Ni ellir caniatáu i hyn barhau. Er bod yr Asiantaeth yn cymryd camau i wella gorfodi drwy ei Chynllun Gwella Gweithredol, gan gynnwys dyrannu mwy o adnoddau i'r swyddogaeth, mae lle i gymryd camau pellach. Er mwyn annog rhieni i gymryd cyfrifoldeb ariannol dros eu plant, mae angen i'r wladwriaeth nodi y caiff camau cyflym ac effeithiol eu cymryd pan na fydd hyn yn digwydd.

65. Mae problemau'r Asiantaeth Cynnal Plant o ran gorfodi yn deillio o gyfuniad o fethiannau sefydliadol a gweinyddol. Mae gorfodi yn swyddogaeth arbenigol, sy'n gofyn am sgiliau, prosesau a chymhellion penodol. Nid oes lle amlwg iddo ar hyn o bryd mewn sefydliad sy'n canolbwyntio ar negodi â rhieni a cheisio rheoli problemau emosiynol anodd. Am y rheswm hwn, argymhellir y dylid creu cangen orfodi ar wahân gyda'i chyfundrefn rheoli perfformiad ei hun. Bydd hyn yn helpu i godi'r proffil ac yn anfon neges glir i rieni nad ydynt yn talu na chaiff hyn ei oddef mwyach ac y caiff camau effeithiol, cyflym eu cymryd yn eu herbyn.

66. Mae rheoli gwaith gorfodi fel swyddogaeth fusnes ar wahân hefyd yn cyd-fynd yn dda â'r model comisiynu yr wyf wedi'i gynnig (gweler adran 8 ar dudalen 40 ar 'Model gweithredu newydd') ac mae'n codi'r gobaith yn y tymor hwy y caiff gwasanaethau o'r fath eu rhannu ar draws y llywodraeth mewn un canolfan arbenigedd.

67. O dan y system bresennol, nid oes gan riant â gofal yr hawl i orfodi cais am gynhaliaeth cynnal plant yn erbyn rhiant dibreswyl nad yw'n talu. Mae nifer o randdeiliaid wedi dadlau y dylid newid y ddeddfwriaeth i ganiatáu gorfodi annibynnol o'r fath. Byddai cam o'r fath yn cyd-fynd â'r rhesymeg o ran rhoi mwy o gyfrifoldeb unigol i rieni. Fodd bynnag, byddai hefyd yn peri rhywfaint o risg o ddyblygu ymdrech rhwng y systemau gweinyddol a system y llysoedd. Un opsiwn fyddai caniatáu i rieni â gofal gael yr hawl i orfodi, ond dim ond pe bai tystiolaeth glir nad oedd y gwasanaeth gweinyddol wedi

gwneud hynny'n effeithiol (er enghraifft drwy beidio â chymryd camau o fewn cyfnod o ddiffyg cydymffurfio diffiniedig). Dylid ystyried hyn ymhellach yng nghynllun manwl y system newydd.

68. Buaswn yn disgwyl i adolygiad o bolisi a gweithrediadau gael ei gynnal ochr yn ochr â threfniadau sefydliadol newydd o ran gorfodi er mwyn ystyried sut i sicrhau gorfodi effeithiol ac effeithlon yn y dyfodol. Gallai hyn gynnwys ymestyn yr amrywiaeth o bwerau sydd ar gael, er enghraifft drwy gyflwyno cosbau proffil uchel megis tynnu pasbortau yn ôl a defnyddio gweithdrefnau gweithredol gwell megis proffilio risg cleientiaid. Mae potensial hefyd i ddefnyddio'r pŵer i osod cosbau ariannol ar y rhai nad ydynt yn cydymffurfio. Gallai hyn annog cydymffurfiaeth a chosbi'r rhai sydd wedyn yn achosi i adnoddau gorfodi gael eu gwario er mwyn mynd ar eu trywydd. Mae gan yr asiantaeth bresennol y pŵer i osod cosbau ariannol ond am resymau gweithredol, nid yw hwn wedi'i arfer. Dylid gwneud gwaith pellach i asesu effaith defnyddio cosbau ariannol yn y dyfodol.

Argymhelliad:

a) Rheoli gorfodi fel swyddogaeth fusnes ar wahân.

b) Cyflwyno cosbau newydd, gan gynnwys y pŵer i dynnu pasbortau yn ôl, a gwneud mwy o ddefnydd o bwerau presennol megis gosod cosbau ariannol.